



© Sophie Pinder for Yorkshire Wildlife Trust

GWERTHUSIAD

OUR BRIGHT FUTURE

Effeithiau allweddol ar gyfer y cyfranogwyr: cyflogadwyedd, gweithredu cymdeithasol a lles

ERS Cyf. a Collingwood Environmental Planning

Mawrth 2021

Awduron: Mair Smith, Fran Haswell-Walls, Kate Vittle



RHAGARWEINIAD

Our Bright Future

Mae Our Bright Future yn rhaglen gwerth £33m o 31 o brosiectau ledled y DU a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae'r prosiectau'n cael eu cyflwyno gan sefydliadau ar draws y sectorau amgylcheddol ac ieuencid, wedi'u huno gan y nod cyffredin o rymuso pobl ifanc (11 i 24 oed) i arwain newid amgylcheddol yn y dyfodol. Gan amrywio o ran graddfa, o leol i genedlaethol, mae'r prosiectau'n canolbwyntio ar weithgareddau fel cynnwys pobl ifanc mewn cadwraeth amgylcheddol ymarferol, eu cynnwys mewn hyfforddiant galwedigaethol, eu cefnogi i ddatblygu eu hymgyrchoedd eu hunain ynghylch materion amgylcheddol a'u helpu i ddechrau eu mentrau cynaliadwy eu hunain. Mae'r rhaglen saith mlynedd yn cael ei rheoli gan yr Ymddiriedolaethau Natur a disgwylir iddi ddog i ben ddiwedd 2022. Yn ystod ei thair blynedd a hanner cyntaf o weithredu, ymgysylltodd Our Bright Future â mwy na 35,000 o bobl ifanc (yn y tymor byr i'r tymor hir) a'u cynnwys mewn gweithgareddau ar draws prosiectau'r portffolio.



Gwerthuso'r rhaglen

Comisiynwyd ERS Cyf., mewn partneriaeth â Collingwood Environmental Planning (CEP), yn 2016 i gynnal gwerthusiad o raglen Our Bright Future. Mae gwerthusiad y rhaglen yn ceisio nodi, dadansoddi ac asesu: effaith gyfunol y 31 o brosiectau ac arfer da, yn ogystal â gwerth ychwanegol swyddogaethau'r rhaglen (h.y. dysgu traws-brosiect).

Dangosodd [Adroddiad Gwerthuso Canol Tymor](#) y rhaglen, a gyhoeddwyd yn 2019, bod cymryd rhan ym mhrosiectau Our Bright Future wedi arwain at amrywiaeth o effeithiau positif i bobl ifanc. Fodd bynnag, daeth yr adroddiad i'r casgliad hefyd bod diffyg tystiolaeth wedi'i chasglu'n uniongyrchol gan bobl ifanc i ddilysu a deall graddau'r effeithiau hyn yn well, a sut cawsant eu hwyluso gan y prosiectau. Fel ymateb i'r bwlch hwn mewn tystiolaeth, dewiswyd tair thema gan Banel Gwerthuso¹ Our Bright Future ar gyfer astudiaethau gwerthuso manwl pellach. Roedd hyn yn cynnwys astudiaeth o'r cyfranogwyr i edrych ar effeithiau allweddol y rhaglen ar gyfer pobl ifanc. Roedd y ffocws penodol ar effeithiau Our Bright Future ar gyflogadwyedd pobl ifanc, eu perthynas â gweithredu cymdeithasol ac iechyd a lles eu meddwl.



¹ Yn adrodd i Grŵp Llywio Our Bright Future, mae'r Panel Gwerthuso'n cynnwys cynrychiolwyr o aelodau o'r consortiwm a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae'n sbarduno ymchwil a gwerthuso'r rhaglen.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Roedd yr astudiaeth hon yn edrych ar **sut mae Our Bright Future wedi effeithio'n uniongyrchol ar fywydau pobl ifanc**. Yn benodol, ceisiodd yr ymchwiler ddangos cryfder y cysylltiad rhwng cymryd rhan yn Our Bright Future a chyflogadwyedd, cyflogaeth, cymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol, gwella lles a hunanhyder. Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth hon yn cadarnhau bod y rhain yn effeithiau amlwg a hefyd yn rhoi arwydd o ffactorau a gweithgareddau allweddol sydd wedi cyfrannu tuag atynt.

Bwriad yr astudiaeth oedd **bod yn sail i ddarpariaeth barhaus prosiectau Our Bright Future** a sefydliadau ar draws y sectorau ieuencid ac amgylcheddol. Felly, rhagwelir y bydd yn berthnasol i ymarferwyr, llunwyr polisiâu a sefydliadau sy'n ceisio cynnwys pobl ifanc yn yr amgylchedd, boed mewn gweithgareddau ymarferol neu seiliedig ar theori.

Yn seiliedig ar adolygiad o lenyddiaeth, datblygwyd **arolwg ar-lein** i gasglu ymatebion gan gyfranogwyr (a chyn-gyfranogwyr). Cafwyd ymatebion gan gyfranogwyr o 25 (o'r 31) o brosiectau'r portffolio gyda sampl derfynol o 258 o ymatebwyr (ar ôl glanhau data). Dilynwyd hyn gan **gyfweiliadau ansoddol dros y ffôn gyda 12 o ymatebwyr i'r arolwg** a gyfrannodd at y data ansoddol a gasglwyd drwy'r arolwg.

Felly, mae'r dystiolaeth ar gyfer yr astudiaeth hon yn ymwneud â sampl fach o gyfranogwyr, sy'n debygol o fod y rhai sy'n ymwneud fwyaf â'u prosiectau a gyda gogwydd sylweddol tuag at y rhai sy'n ymgysylltu ar hyn o bryd neu wedi gwneud hynny'n ddiweddar. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ystyried graddfa'r effeithiau a welir ar draws y sampl. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol isod gyda'r adroddiad llawn yn darparu syniad o i ba raddau y gwelwyd yr effeithiau hyn ar draws y sampl.

Canfyddiadau allweddol



Mae Our Bright Future wedi gwella cyflogadwyedd cyfranogwyr, wedi cynyddu eu dyheadau ac wedi ehangu eu hymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth. Cadarnhaodd yr astudiaeth bod cyfranogwyr Our Bright Future wedi profi llawer o'r manteision cysylltiedig ag addysg a chyflogaeth a awgrymwyd gan astudiaethau blaenorol o ymgysylltu â phobl ifanc mewn rhaglenni gwirfoddoli ac amgylcheddol. Dylanwadwyd ar y cyfranogwyr i ddilyn gyrfaedd yn sector yr amgylchedd yn ogystal â defnyddio gwerthoedd, sgiliau a diddordebau amgylcheddol a ddatblygwyd drwy Our Bright Future mewn swyddi ac astudiaethau mor amrywiol â ffasiwn a pheirianeg.

"Mae wedi agor fy llygaid i i'r posibiladau a'r cyfleoedd sydd ar gael mewn sectorau cynaliadwy / amgylcheddol ac mae wedi gwneud i mi weld bod lle i mi a fy sgiliau." Cyfranogwr prosiect

"Hefyd mae'n anodd cyfleu fy niolch am yr ethos rydw i wedi'i ddysgu o ran y gwaith rydw i'n ei wneud oherwydd yr amser wnes i ei dreulio yno. Rydw i bellach yn gweithio gydag angerdd yr oeddwn yn ei chael yn anodd dod o hyd iddo o'r blaen ac yn llawn balchder gan wybod fy mod yn gwella'r amgylchedd a'r byd rydyn ni i gyd yn ei rannu wrth i mi weithio." Cyfranogwr prosiect

"Mae fy ymwneud i â'r prosiect wedi agor fy llygaid i bwysigrwydd manteisio ar bob cyfle sydd ar gael a'i ddilyn." Cyfranogwr prosiect

Gweithgareddau a phrofiadau allweddol sy'n cyfrannu at gyflogadwyedd a dyheadau gwell:

- Datblygu sgiliau trosglwyddadwy, cymdeithasol a hyder
- Datblygu gwybodaeth benodol i bwnc ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfaol
- Profiadau penodol mewn gwahanol gyd-destunau e.e. cadwraeth ymarferol a sefyllfaoedd proffesiynol
- Cyfleoedd i arwain a pherchnogi
- Cefnogaeth gyda chyflogaeth
- Datblygu rhwydweithiau proffesiynol a chyfleoedd i gysylltu ag eraill



Mae Our Bright Future wedi cyfrannu at lwyddiant cyfranogwyr wrth sicrhau cyfleoedd cyflogaeth, hunangyflogaeth ac addysg. Mae'r cyfranogwyr wedi sicrhau interniaethau, prentisiaethau a chyflogaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Natural England, yr Ymddiriedolaethau Natur a Groundwork mewn swyddi fel ceidwaid ac ecolegwyr.

"Fe wnes i gais a sicrhau interniaeth gyda'r RSPB, a blwyddyn yn ddiweddarach, cael swydd lawn amser gyda Natural England. Ni fyddwn wedi bod â'r hyder na'r cymhelliant i wneud cais am y naill na'r llall, heb yr egni newydd dros newid amgylcheddol gefais i [gan Our Bright Future]." Cyfranogwr prosiect

"Fe roddodd [Our Bright Future] yr hyder a'r gefnogaeth i mi i wneud fy menter gymdeithasol yn realiti a dianc o fywyd swyddfa 9 tan 5 i weithio dros achos a chreu newid cadarnhaol yn fy nghymuned." Cyfranogwr prosiect

Ceir arwyddion nad yw'r effeithiau tymor hwy ar gyrchfannau addysg a chyflogaeth cyfranogwyr wedi'u gwireddu eto gyda'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn dweud bod y rhaglen wedi dylanwadu ar eu dyheadau, eu gobeithion a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â'u haddysg a'u gyrfa.



Mae Our Bright Future wedi dylanwadu ar rai cyfranogwyr i barhau neu ddechrau gwirfoddoli naill ai gyda sefydliadau sy'n ymwneud â'r rhaglen neu achosion eraill sydd â ffocws cymdeithasol ac amgylcheddol. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i fwy o werthfawrogiad o fanteision personol gwirfoddoli ac yn rhannol oherwydd cymhellion anhunanol. Mae'r prosiectau hefyd wedi rhoi hyder i'r cyfranogwyr ymgymryd â swyddi gwirfoddol ar fyrddau llywodraethu a rheoli a swyddogaethau eraill nad oeddent wedi'u hystyried yn agored iddynt o'r blaen. Roedd hyn yn cynnwys swyddogaethau ar grŵp llywio Cyfeillion Ifanc y Ddaear Lloegr, fforwm ieuencid lleol Ymddiriedolaeth Natur, grŵp Cyfeillion Parc, bwrdd llywodraethu ysgol a swyddogaethau'n cynllunio gwahanol ddyddiau gweithgarwch amgylcheddol a chymunedol.

"Mae wedi dylanwadu arna' i i rannu fy marn am gyswllt pobl ifanc â'r amgylchedd ac i wneud hyn rydw i wedi gwirfoddoli ar nifer o fyrddau i helpu i lywio'r sefydliadau." Cyfranogwr prosiect



Mae Our Bright Future wedi dylanwadu ar gyfranogwyr i gymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol pellach ac ymgyrchu i ddylanwadu ar benderfyniadau. Mewn rhai achosion, roedd hyn o ganlyniad i brosiectau'n newid agweddau cyfranogwyr tuag at ymgyrchu. Roedd y cyfranogwyr yn tueddu i gymryd rhan mewn ymgyrchu ar lefel leol yn hytrach na chenedlaethol ac yn canolbwyntio'n gyffredinol ar faterion amgylcheddol gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, plastig defnydd untro, a materion gwastraff ehangach. Roedd llawer wedi ymuno â grwpiau ac ymgyrchoedd presennol a disgrifiodd rhai gynhyrchu cynnwys ar-lein i ymgyrchu, gan ddefnyddio ffilm, ffotograffiaeth, cyfryngau cymdeithasol a chynnwys ar-lein i rannu negeseuon. Roedd yr enghreifftiau o ganlyniadau diriaethol yn deillio o'r ymgyrchoedd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar ysgolion ac yn cynnwys sefydlu nifer o glybiau eco, creu gerddi bywyd gwyllt a chynlluniau i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu.

"Llwyddais i wneud araith o flaen pobl. Yn bendant, ni fyddwn wedi gallu gwneud hynny heb fy nghyfnod gyda'r prosiect; fe roddodd yr hwb yr oedd arnaf ei angen i mi. Roedd gen i'r hyder i sefyll ar y rheng flaen a gweiddi geiriau o anogaeth drwy'r megaffon i holl bobl y stryd eu clywed." Cyfranogwr prosiect

"Fe wnaeth i mi deimlo'n llawer mwy hyderus ac angerddol am fynd ar drywydd newid. Mae'n bendant wedi fy mharatoi'n dda i fod yn ymgyrchydd am oes!" Cyfranogwr prosiect



Mae Our Bright Future wedi ysbrydoli a rhoi hyder i gyfranogwyr leisio'u barn a pharhau i fod eisiau ymwneud â materion amgylcheddol. Er ei bod yn amlwg yn effaith ar gyfer cyfranogwyr mewn pob math o weithgarwch, roedd mwy o ymdeimlad o rymuso ymlith y rhai a gymerodd ran mewn gweithgareddau ymgyrchu a phrosiectau entrepreneuriaidd. Yn bwysig, mae'n ymddangos bod y disgwyliad i barhau i gymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol yn cael ei gynnal am fwy na 6 mis ar ôl cymryd rhan.



Mae Our Bright Future wedi helpu i wella lles cyfranogwyr drwy ddarparu profiadau yn yr awyr agored, yn yr amgylchedd a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymdeithasol. Cyfranogwyr mewn tasgau amgylcheddol ymarferol yn yr awyr agored a phrentisiaethau neu gyrsiau dysgu ffurfiol oedd yn adrodd yn ôl yn fwyaf cyffredin am wella lles. Canfuwyd bod yr olaf yn arbennig o bwysig i'r rhai a oedd yn teimlo'n ynysig neu a oedd wedi profi iechyd meddwl gwael cyn iddynt gymryd rhan.

"Fe roddodd [Our Bright Future] ofod i mi wella fy lles meddyliol, drwy gymryd rhan mewn rhywbeth ystyrlon a mwynhau manau awyr agored... Roedd fy hyder i'n cynyddu, a'r gorbryder yn lleihau ac roeddwn i'n edrych ymlaen at bob sesiwn." Cyfranogwr prosiect

Yn ddiddorol, yn hytrach na phrofi 'eco-bryder', fel y trafodwyd mewn llenyddiaeth ehangach, mae dysgu mwy am faterion amgylcheddol a chwrdd â phobl ifanc eraill drwy brosiectau Our Bright Future wedi rhoi hyder i gyfranogwyr yn eu cenhedlaeth a'r potensial i fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol. Mae hyn, i raddau, wedi rhoi sylw i ofnau cyfranogwyr ac wedi gwella eu gobaith ar gyfer y dyfodol a'u lles.



Mae Our Bright Future wedi datblygu hunanhyder y cyfranogwyr. Mae'n ymddangos bod hyn yn gysylltiedig yn fwy na dim ag ymgysylltu tymor hwy (cymryd rhan am dri mis neu fwy) â'r rhaglen. Canfuwyd bod y canlyniad hwn yn cael ei hwyluso gan yr amgylchedd cefnogol a ddarperir gan brosiectau; rhyngweithio cymdeithasol; profiadau a heriau newydd; datblygu sgiliau a chyflawni pethau. Yn ôl yr ymatebwyr, ni fyddai llawer wedi magu'r hyder hwn a chymwyseddau cymdeithasol ac emosiynol eraill heb Our Bright Future.

Drwy Our Bright Future mae'r cyfranogwyr hefyd wedi magu hyder i ymgysylltu ag eraill yn gyfdeithasol, siarad yn gyhoeddus, defnyddio sgiliau a manteisio ar gyfleoedd newydd. Mae mwy o hyder nid yn unig yn ganlyniad cyffredin ond mae hefyd, yn amlwg, wedi bod yn sail i effeithiau amrywiol i gyfranogwyr, gan gynnwys mwy o gyflogadwyedd a'r nifer sy'n manteisio ar wahanol gyfleoedd, mwy o uchelgais a gwella lles.

Casgliadau cyffredinol

Nid oes llwybr cyffredin drwy Our Bright Future ac mae'r 31 o wahanol brosiectau'n amrywio'n helaeth. Fodd bynnag, mae'r astudiaeth hon wedi darparu tystiolaeth i gadarnhau bod **ymgysylltu â'r gweithgareddau a ddarperir gan Our Bright Future yn arwain at fanteision addysg a chyflogaeth gwerthfawr i bobl ifanc** ochr yn ochr â chefnogi gwelliannau mewn hunanhyder a lles. Fel rhagarweiniad i'r adroddiad, cyflwynir yr effeithiau hyn a gadarnhawyd, a'r gweithgareddau y canfuwyd eu bod yn allweddol er mwyn eu cyflawni, yn y diagram dros y dudalen. Bydd y rhain yn werthfawr i ymyriadau yn y dyfodol eu hystyried.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, **dylid ystyried gwella hunanhyder fel un o nodau canolog unrhyw ymyriad** oherwydd canfuwyd bod hyn yn sail i effeithiau cadarnhaol pellach i bobl ifanc, gan gynnwys symud ymlaen i addysg, hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth, yn ogystal â gwelliannau i iechyd a lles y meddwl. Mae'n amlwg bod gwell hunanhyder yn darparu'r sylfaen ar gyfer twf personol. O'r herwydd, mae'r **elfennau allweddol ar gyfer eu cynnwys mewn ymyriadau yn y dyfodol yn cynnwys amgylchedd cefnogol, rhyngweithio cymdeithasol, profiadau a heriau newydd, datblygu**

sgiliau a chyflawniadau. Mae'n ymddangos hefyd bod ymgysylltu tymor hir yn fwy buddiol ar gyfer manteision hunanhyder a lles nag ymgysylltu tymor byr.

Mae'r canfyddiadau hyn yn **arbennig o berthnasol o ystyried effeithiau diweddar pandemig COVID-19** ar y genhedlaeth bresennol o bobl ifanc, eu haddysg, eu hiechyd meddwl a'u cyfleoedd cyflogaeth. Mae'n ymddangos bod gweithgareddau fel y rhai a ddarperir gan Our Bright Future yn cynnig cyfle buddsoddi gwerthfawr posib i fynd i'r afael ag agendâu a heriau lluosog sy'n berthnasol i bobl ifanc.

Map model rhesymeg o ganlyniadau ac effeithiau ar gyfer y cyfranogwyr

